



Cofrestrwch ar gyfer ein dysgu ar-lein am ddim i ddarganfod mwy am weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru



Mae pecyn dysgu ar-lein newydd i helpu pobl i ddysgu mwy am fanteision partneriaeth gymdeithasol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 bellach ar gael drwy blatfform **Learning@Wales**. Mae'r dysgu ar-lein yn darparu mynediad at fodiwlau rhyngweithiol am ddim i helpu i ddysgu mwy am bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r dysgu'n cynnwys tair pennod:

Pennod 1 - Partneriaeth Gymdeithasol - Y Ffordd Gymreig

Pennod 2 - Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Pennod 3 - Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r platfform yn cynnig cyfle gwych i ddysgu mwy am bartneriaeth gymdeithasol ac ymgorffori partneriaeth gymdeithasol yn eich sefydliad.

Datblygwyd y dysgu ar-lein drwy bartneriaeth gymdeithasol, a gellir ei gwblhau mewn ffordd hyblyg sy'n galluogi dysgwyr i weithio drwy'r pecyn ar eu cyflymder eu hunain.

I gael mynediad i'r dysgu ar-lein:

- Os oes gennych gyfrif **Learning@Wales** eisoes, mewngofnodwch a chliciwch ar y ddolen hon: <https://learning.nhs.wales/course/index.php?categoryid=550>
- Os nad oes gennych gyfrif, bydd angen i chi gofrestru gyntaf ac yna defnyddio'r ddolen uchod i gael mynediad i'r cwrs. Mae modd i chi gofrestru yma: **Learning@Wales**: mewngofnodi i'r wefan neu e-bostiwch eateb@wales.nhs.uk
- Gall staff GIG Cymru gael mynediad i'r dysgu ar-lein drwy'r Cofnod Staff Electronig (ESR).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn PGCGT@llyw.cymru